GENERAL TEACHING COUNCIL FOR WALES
CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

COFNODION SEITHFED CYFARFOD AR HUGAIN CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

DYDDIAD: 20FED HYDREF 2009

LLEOLIAD: PRIFYSGOL MORGANNWG, PONTYPRIDD

Yn bresennol:
Aelodau:

Mal Davies (Cadeirydd)	Hélène Mansfield
Jacquie Turnbull (Dirprwy Gadeirydd)	Gareth Matthewson
Frank Bonello	Jane Morris
Beth Davies	Sue O'Halloran
Elwyn Davies	Hugh Pattrick
Susan Davies	Jane Setchfield
Roberto De Benedictis	Cleo Sollars
Mike Edwards	Anna Spokes
Angela Jardine	Sarah Stockford
Gareth Jones	

Ymddiheuriadau:

Phil Bassett	Tim Cox
Sheila Drayton	Ian Guy
Suzanne Nantcurvis	

Swyddogion:

Gary Brace	Prif Weithredwr
Hayden Llewellyn	Dirprwy Brif Weithredwr (Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol)
Julia Evans	Dirprwy Brif Weithredwr (Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol)
Karen Evans	Rheolwr Polisi a Chynllunio
Jo Read	Ysgrifenyddes y Cyngor
Joy Austin	Cynorthwy-ydd Gweithredol i'r Prif Weithredwr

1. Croeso a Sylwadau Agoriadol

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i seithfed cyfarfod ar ddeg ar hugain y Cyngor. Estynnwyd croeso arbennig i Gareth Matthewson, a oedd yn mynychu ei gyfarfod cyntaf fel aelod o'r Cyngor.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Phil Bassett, Tim Cox, Sheila Drayton, Ian Guy a Suzanne Nantcurvis.

1.3 Yna, estynnwyd croeso i Alan Meyrick (Dirprwy Brif Weithredwr a Chofrestrydd, Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr) a oedd yn mynychu'r cyfarfod fel arsylwr.

1.4 Aeth y Cadeirydd ymlaen i atgoffa'r aelodau y câi'r cyfarfod ei gynnal yn ddwyieithog.

1.5 Atgoffwyd yr aelodau bod Jacky Tonge wedi ymddiswyddo o'r Cyngor am resymau personol. Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi hysbysu'r swyddogion y gallai'r Cyngor fynd yn ei flaen gyda 24 o aelodau. Roedd proses benodi'r Cynulliad wedi dechrau a byddai personau a benodwyd gan y Cynulliad (penodiadau uniongyrchol ac aelodau a benodwyd ar ôl eu henwebu) yn dechrau yn eu rolau o 1af Medi 2010 ymlaen. Bydd angen penodi aelod newydd yn lle Jacky Tonge, sef cyswllt Chwythu'r Chwiban y staff. Gwahoddwyd yr aelodau i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb i'r Prif Weithredwr.

1.6 Rhoddwyd adroddiad byr ynghylch mynychu cynhadledd EUNEC yn Budapest ar 12-14 Hydref 2009. Roedd y Cadeirydd, Angela Jardine ac Anna Spokes wedi cynrychioli'r Cyngor. Bu dwy thema: yn gyntaf; Cynghorau Addysg yn yr Undeb Ewropeaidd gan roi pwyslais ar lunio cyngor i lywodraethau, gan gynnwys sut i weithio gydag arbenigwyr a swyddogion llywodraethau; ac yn ail, arweiniad drwy gyfnodau trosiannol yn y llwybr dysgu a fu'n edrych yn arbennig ar blant sydd mewn perygl o adael systemau addysg yn gynnar. Caiff adroddiad ei gyflwyno i'r Cyngor yn ei gyfarfod nesaf ar 4ydd Chwefror 2010.

2. Datganiadau o Ddiddordeb

2.1 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

2.2 Atgoffwyd yr aelodau i gwblhau eu Datganiad Diddordebau Aelodau a'u cyflwyno erbyn 6ed Tachwedd 2009.

3. Gohebiaeth y Cadeirydd

3.1 Tynnodd y Cadeirydd sylw at ei lythyr at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar 24ain Gorffennaf 2009 (gyda'r dyddiad anghywir, sef 24ain Mehefin 2009, arno) ac ymateb y Gweinidog dyddiedig 25ain Awst 2009.

3.2 Dywedodd fod unrhyw faterion yn y llythyrau eisoes wedi'u cynnwys gan y Gweinidog yn ei hanerchiad yn y sesiwn breifat. Ychwanegodd ei fod yn pryderu bod yr amserlen ar gyfer yr adolygiad o DPP, yr oedd Jane Hutt wedi'i adrodd i aelodau yn gynt, yn rhy dynn, yn ôl pob golwg, a gallai hyn effeithio ar ei safon. Nododd y Prif Weithredwr fod y Cyngor wedi cymryd tair blynedd i ddatblygu'r Fframwaith Datblygiad Proffesiynol ac ymgynghori arno, a fu'n ymwneud ag athrawon yn unig, nid y gweithlu ehangach ac athrawon mewn lleoliadau ôl-orfodol, fel y bwriedir gydag adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru.

3.3 Mynegodd un aelod ei phryder ynghylch dyfnder a safon adolygiad y Cynulliad ac ystyriodd a ellid rhagweld y canlyniadau. Nid oedd yn glir i aelodau a oedd yr adolygiad eisoes wedi dechrau ai peidio, a phwy fyddai'n ei gynnal. Adroddodd dau aelod eu bod wedi mynychu digwyddiadau'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, lle'r oedd swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwahodd sylwadau ynghylch trefniadau'r adolygiad o DPP.

3.4 Nododd y Cadeirydd rwystredigaeth yr aelodau ynghylch y trefniadau ar gyfer yr adolygiad. Awgrymodd un aelod y dylai pryderon y Cyngor gael eu codi mor gynnar â hyn, ac felly na fyddai'n rhy hwyr i ddylanwadu ar y ffordd y câi'r adolygiad ei gynnal. Ychwanegodd y dylid gofyn am eglurhad ynghylch aelodau'r grŵp adolygu. Ychwanegodd y Prif Weithredwr ei fod wedi cael mewnbwn i gylch gorchwyl yr adolygiad ar sail profiad y Cyngor o ddatblygu'r Fframwaith Datblygiad Proffesiynol. Rhoddodd sicrwydd i'r aelodau y caiff diweddariad ei ddarparu yn y cyfarfodydd pwyllgor ym mis Rhagfyr a chytunodd y caiff y 'cylch gorchwyl' ar gyfer yr adolygiad ei ddosbarthu i'r Cyngor.

3.5 Nododd yr aelodau'r ohebiaeth. Ni chodwyd unrhyw faterion pellach.

4. Cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 9fed Gorffennaf 2009

4.1 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir.

Materion yn codi:

4.2 Cofnod 16.9: Ymarfer Hunanasesu'r Cyngor: Dywedwyd wrth yr aelodau bod cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant aelodau'n cael eu hystyried a gofynnwyd am adborth am y cyflwyniad ynghylch y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yng Nghymru a roddwyd gan Chris Tweedale ar 14eg Medi 2009. Cytunodd yr aelodau i'r cyflwyniad fod yn un buddiol a byddai digwyddiadau tebyg yn ddefnyddiol.

4.3 Croesawodd yr aelodau'r ffaith bod cylchlythyr electronig wythnosol Dysg yn cael ei ddosbarthu a chytunwyd y dylid parhau â hyn. Gwahoddwyd yr aelodau i gysylltu ag Ysgrifenyddes y Cyngor pe bai angen gwybodaeth bellach arnynt, ne pe dymunent fynychu'r digwyddiadau a hysbysebwyd.

4.4 Awgrymodd un aelod y gallai diwrnod o hyfforddiant anffurfiol ynghylch materion pynciol ym myd addysg yn fuddiol ac y gallai hyn ddigwydd fel diwrnod ychwanegol at yr hyfforddiant gloywi disgyblu blynyddol. Nododd y Cadeirydd ei bod yn anodd sicrhau presenoldeb aelodau ar gyfer y digwyddiad undydd blynyddol ac y gellid trefnu amser arall amdano. Awgrymodd y Prif Weithredwr efallai y byddai sesiwn anffurfiol yn dilyn cyfarfod y Cyngor yn well.

4.5 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

5. Derbyn hysbysiad am unrhyw faterion y dymuna aelodau eu codi mewn perthynas â'r eitem Agenda 'Gwybodaeth' (16-19)

5.1 Ni chafwyd unrhyw hysbysiad.

6. Cofnodion drafft y Pwyllgor Gweithredol a gynhaliwyd 14eg Medi 2009

6.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn gan y Prif Weithredwr a chynghorwyd yr aelodau y byddai'r holl faterion, heblaw un, yn cael eu trafod ar agenda'r cyfarfod.

Materion yn codi:

6.2 Cofnod 4.5: Adroddiad cynnydd ar Gyllido Sefydlu a DPC: Sicrhawyd yr aelodau bod y diffyg brys ar ran swyddogion y Cynulliad wrth geisio cymeradwyaeth y Gweinidog ar gyfer y newid yn y trefniadau cyllido presennol wedi'i gyfleu i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn eu cyfarfod blynyddol ar 22ain Medi 2009.

6.3 Cofnod 5: Adroddiad cynnydd ar y Rhaglen Gyllido Datblygiad Proffesiynol a Chofnod 6: Adolygiad o'r Rhaglen Gyllido DPP: Awgrymodd y Prif Weithredwr y dylid gohirio unrhyw drafodaeth ynghylch materion yn ymwneud â'r Rhaglen Gyllido DPP tan eitem agenda 14.

6.4 Cofnod 7: Costau disgyblu: Tynnwyd sylw'r aelodau at yr adroddiad hwn a gyflwynwyd hefyd i'r Pwyllgor Cofrestru ac a ddarparwyd yn llawn fel papur 'Er gwybodaeth' yn eitem agenda 18. Dywedodd y Prif Weithredwr y cafodd yr adrodd ei lunio o ganlyniad i sylw negyddol yn y wasg yn ystod haf 2009. Câi'r wybodaeth hon ei rhannu gydag undebau athrawon yn y cyfarfod cysylltu nesaf ar 4ydd Tachwedd 2009.

6.5 Cofnod 8.3: Darlith Addysg Cymru 2010: Adroddodd y Prif Weithredwr i'r ddarlith a draddodwyd gan Syr William Atkinson ar 5ed Hydref 2009 gael ymateb da iawn. Ychwanegodd fod gwahoddiad wedi'i estyn i'r Arglwydd Puttnam i draddodi darlith 2010 ond ni chafwyd unrhyw ymateb hyd yn hyn.

6.6 Cofnod 9: Effeithiolrwydd y Cyngor: canfyddiadau rhanddeiliaid mewn proffesiynau eraill Hysbyswyd yr aelodau y byddai'r Pwyllgor Gweithredol yn parhau i drafod y maes hwn ymhellach. Nododd y Prif Weithredwr y bydd angen trafodaeth bellach ynghylch cyfathrebu â'r proffesiwn ar ôl i'r cysylltiad drwy gyfrwng y Rhaglen Datblygiad Proffesiynol gael ei golli. Caiff hyn ei gynnwys ar agenda'r cyfarfod ym mis Rhagfyr.

6.7 Cofnod 11: Calendr cyfarfodydd 2010-11: Atgoffwyd yr aelodau bod y calendr wedi'i ddosbarthu i'r holl aelodau i'w gyfeirio ato yn y dyfodol.

6.8 Cofnod 2.3: Strategaeth Gyfathrebu Ddiwygiedig: Awgrymodd un aelod y dylid rhoi blaenoriaeth i ymgysylltu â llefarwyr addysgol y gwrthbleidiau gwleidyddol. Adroddodd y Prif Weithredwr fod cyfarfodydd wedi'u trefnu ar gyfer mis Tachwedd 2009. Câi'r canlyniadau eu hadrodd i'r aelodau.

6.9 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

6.10 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

7. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Polisi a gynhaliwyd ar 14eg Medi 2009

7.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn gan y Prif Weithredwr, a hysbysodd yr aelodau y câi'r holl faterion heblaw un eu cynnwys ar agenda'r cyfarfod.

Materion yn codi:

7.2 Cofnod 4.8: Strategaeth Ymchwil CyngACC: Tynnwyd sylw'r aelodau at gyhoeddiad yr oedd yr Athro Andrew Pollard yn awyddus i weithio arno ar y cyd â ChyngACau'r DU, a fyddai'n cynnwys astudiaethau achos y Rhaglen Ymchwil Addysgu a Dysgu (TLRP), gan gwmpasu'r pedair gwlad. Byddai angen i'r TLRP ddarparu'r rhan fwyaf o'r cyllid a byddai CyngACC yn cyllido fersiwn Gymraeg o'r ddogfen.

7.3 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

7.4 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

8. Cofnodion drafft y Pwyllgor Cofrestru a gynhaliwyd ar 17eg Medi 2009

8.1 Cyflwynodd Hugh Pattrick y cofnodion hyn a thynnodd sylw'r aelodau at y prif bwyntiau.

Materion yn codi:

8.2 Cofnod 4: Y Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol Diwygiedig Drafft: Tynnodd y Cadeirydd sylw at yr ymgynghoriad am y Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol diwygiedig drafft, a lansiwyd y diwrnod hwnnw. Adroddodd fod swyddogion eisoes wedi dechrau ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ac y gellid disgwyl sylw yn y wasg.

8.3 Gofynnodd un aelod am eglurhad ar drefniadau rhagweithiol y Cyngor i sicrhau sylw yn y wasg. Hysbyswyd yr aelodau y byddai datganiad llawn gan y Prif Weithredwr yn ymddangos yn y Western Mail yn fuan, wedi'i ddilyn gan sylwebaeth yn TES Cymru a sylw gan y BBC yn ddiweddarach yn yr wythnos.

8.4 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

8.5 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

9. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 23ain Medi 2009

9.1 Cyflwynodd Beth Davies, a gadeiriodd y Pwyllgor yn absenoldeb Sheila Drayton, y cofnodion hyn, gan amlygu'r prif bwyntiau.

Materion yn codi:

9.2 Cofnod 9.2: Adroddiadau Archwilio Mewnol: Hysbyswyd yr aelodau bod sicrwydd sylweddol wedi'i roi yn yr adroddiadau Archwilio Mewnol a fu'n ymwneud â'r canlynol: Cod ymddygiad aelodau, Yswiriant Indemniad a gwaith dilynol ynghylch Aeddfedrwydd Risg. Ni wnaed unrhyw argymhellion.

9.3 Hysbyswyd yr aelodau hefyd fod y pwyllgor wedi croesawu ychwanegu pedwerydd cyfarfod o'r Pwyllgor at galendr y flwyddyn ac argymhellodd y dylid parhau â hyn. Gwahoddwyd y Cyngor i gymeradwyo'r trefniant hwn a chytunodd yr aelodau.

9.4 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

9.5 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

10. Rheolau Sefydlog Diwygiedig Drafft (CyngACC 38/09)

10.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn, a wahoddodd yr aelodau i ystyried newidiadau pellach i'r Rheolau Sefydlog, ac os gwelwyd yn dda, i'w mabwysiadu.

10.2 Tynnwyd sylw'r aelodau at y diwygiadau arfaethedig, a fu'n cynnwys: absenoldeb parhaol aelod (Rheol Sefydlog 5), lle cynigiwyd y dylid rhoi cyfle i'r aelod gael ei glywed mewn sesiwn breifat; ail-drefnu paragraffau i egluro y gellid parhau â busnes mewn achosion brys lle nad oedd y Cyngor neu Bwyllgor â chworwm (Rheol Sefydlog 18); a manylion ynghylch trefniadau pleidleisio (Rheol Sefydlog 20), lle ychwanegwyd isadran newydd i ddisgrifio sefyllfaoedd lle gallai fod angen pleidlais, sut i bleidleisio a chofnodi pleidlais.

10.3 Hysbyswyd yr aelodau bod sylwadau wedi'u derbyn gan un aelod nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod. Darllenwyd y sylwadau hyn yn uchel i aelodau eu hystyried.

10.4 Gofynnodd aelod arall am eglurhad ynghylch y drefn i'w dilyn os ceir pleidlais gyfartal ac a fyddai'r Cadeirydd yn defnyddio pleidlais fwrw. Cytunwyd y dylid cynnwys hyn yn Rheolau Sefydlog y Cyngor.

10.5 Cytunodd yr aelodau y dylid dirprwyo'r diwygiadau a'r sylwadau ychwanegol i'r Pwyllgor Gweithredol i'w datblygu ymhellach. Byddai hyn yn digwydd yn ei gyfarfod nesaf ar 1af Rhagfyr 2009. Câi'r diwygiadau hyn eu hailgyflwyno i'r Cyngor i'w hystyried yn y cyfarfod ar 4ydd Chwefror 2010.

10.6 Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

11. Rheolau Cofrestru Drafft (CyngACC 39/09)

11.1 Wrth gyflwyno'r papur hwn, hysbysodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) yr aelodau i ddrafft cyntaf o'r ddogfen hon gael ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Cofrestru a bod sylwadau aelodau wedi'u cynnwys yn y fersiwn bresennol. Hysbyswyd yr aelodau fod gan gyrff proffesiynol eraill Reolau Cofrestru ar waith i gyd-fynd â Rheoliadau a'u hategu.

11.2 Pan sefydlwyd y Cyngor, roedd aelodau o'r farn bod *Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000* yn ddigon manwl i negyddu'r angen am Reolau o'r fath. Fodd bynnag, nododd cyngor cyfreithiol y Cyngor y dylai'r Cyngor sefydlu Rheolau Cofrestru sy'n nodi ei ymarferion yn glir, wrth i waith y Cyngor o ran cofrestru a safonau proffesiynol ddatblygu, yn enwedig mewn meysydd nad oedd y Rheoliadau'n eu cynnwys. Enghraifft o hyn oedd yr angen i nodi trefniadau'r Cyngor o ran adfer cofnodion ar y Gofrestr yn dilyn Gorchymyn Atal, a oedd wedi'i herio ychydig o weithiau. Hysbyswyd yr aelodau bod y rhan fwyaf o'r trefniadau a nodwyd yn y drafft yn cynnwys prosesau y mae'r Cyngor eisoes yn eu dilyn. Byddai'r ddogfen yn darparu eglurhad pellach ynghylch nifer o faterion.

11.3 Gwahoddodd yr aelodau i gynnig sylwadau ac yna i roi arweiniad ynghylch a deimlid ei bod yn briodol ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol cyn rhoi'r wedd derfynol ar y ddogfen a'i mabwysiadu. Codwyd nifer o bwyntiau.

11.4 Gofynnodd un aelod am eglurhad ynghylch y diffiniad o 'oedran ysgol' a gofynnodd aelod arall am sicrwydd ynghylch y broses a ddilynir pan fydd athrawon yn cwblhau'r broses gofrestru a phan roedd ganddynt gyfenwau eraill. Cadarnhaodd Hayden Llewellyn fod gan GyngACC a'r SCT systemau cadarn ar waith i ymdopi'n foddhaol â'r mater cyffredin hwn.

11.5 Gofynnwyd hefyd am eglurhad ynghylch y cyfnod o amser y gallai'r Cyngor gadw rhestr o athrawon a gofrestrwyd yn flaenorol. Esboniwyd ei bod yn angenrheidiol cadw gwybodaeth o'r fath oherwydd byddai nifer o athrawon a gofrestrwyd yn flaenorol yn ailgofrestru'n ddiweddarach. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau y byddai'r Cyngor yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data a gofynnid am gyngor cyfreithiol. Byddai'r testun yn cael ei ddiwygio fel sy'n briodol.

11.6 Gofynnwyd am sicrwydd hefyd ynghylch cyfyngu ar fynediad y cyhoedd i'r Gofrestr. Rhoddwyd cadarnhad y byddai aelodau'r cyhoedd sy'n holi am y Gofrestr ond yn gallu gwirio a yw athro/athrawes benodol wedi'i gofrestru/ei chofrestru gyda ChyngACC ai peidio. Gofynnodd un aelod a allai athrawon gwblhau eu cofrestriad ar-lein. Dywedodd Hayden Llewellyn fod rhaid i'r cais i gofrestru fod ar ffurf bapur, er bod y Cyngor yn gobeithio mabwysiadu system talu ar-lein yn y dyfodol, oherwydd ffurflen gais yr SCT am Ddatgeliad Manylach, yr oedd yn rhaid ei llenwi ar bapur.

11.7 Gofynnwyd hefyd am wybodaeth bellach ynghylch y diffiniad o 'gyflogwr perthnasol' mewn perthynas ag ysgolion gwirfoddol lle nad oedd hi'n glir a oedd gan y Corff Llywodraethol gyfrifoldebau'r cyflogwr ai peidio. Byddid yn gofyn am gyngor cyfreithiol ar y pwynt hwn ac fe'i cynhwysir yn y drafft diwygiedig.

11.8 Ni ofynnwyd am unrhyw bwyntiau pellach i'w hegluro ac roedd yr aelodau'n fodlon i'r drafft gael ei symud yn ei flaen yn amodol ar y diwygiadau arfaethedig.

11.9 Mewn perthynas â'r mater o ymgynghori, awgrymodd y Prif Weithredwr efallai y byddai'n briodol cynnal ymgynghoriad byr â rhanddeiliaid allweddol, yn unol ag arweiniad y Cyngor ynghylch cynyddu cyfathrebu. Roedd yr aelodau'n gytûn.

11.10 Ni chodwyd unrhyw bwyntiau eraill.

12. Goblygiadau'r Papur Gwyn: Materion Cofrestru (CyngACC 40/09)

12.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn yn fras, a oedd yn rhoi cyfle cyntaf i'r Cyngor drafod goblygiadau posibl Papur Gwyn a allai esgor ar oblygiadau i GyngACC, yn ogystal â ChyngACLl. Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd yn Lloegr, Ed Balls, y Papur Gwyn, a fu'n dwyn y teitl '*Your Child, Your Schools, Our Future: Building a 21st Century Schools System'*, ym mis Mehefin 2009. Rhagwelwyd y câi'r Mesur ei gyhoeddi tua diwedd 2009.

12.2 Gwahoddwyd yr aelodau i ystyried y gallai datblygiadau deddfwriaethol sy'n deillio o'r Papur Gwyn arwain at ddau newid sylweddol yn y trefniadau presennol, sef: yn y dyfodol, y câi cofrestriad llawn ei ddyfarnu ar ôl i'r cyfnod Sefydlu statudol gael ei gwblhau; a gallai cofrestru ddod yn broses weithredol, yn hytrach na phroses oddefol, lle gofynnid i gofrestreion ailymgeisio i gofrestru bob pum mlynedd.

12.3 Roedd yr Adran dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd (APYTh) wedi ymgynghori â Llywodraeth Cynulliad Cymru i bennu sut y gellid gweithredu hyn yng Nghymru, os o gwbl. Roedd y Cynulliad wedi dweud wrth APYTh ei fod yn awyddus i'r Mesur roi "cymhwysedd deddfwriaethol" mwy cyffredinol i'r Cynulliad mewn perthynas â chofrestru. Hynny yw, byddai angen i'r ddeddfwriaeth fod yn "alluogol" yng Nghymru er mwyn i'r Cynulliad ddatblygu ei syniadau ei hun ynghylch y materion hyn yn y lle cyntaf, ac ymgynghori arnynt yn hytrach na chaniatáu i'r cynigion yn Lloegr gael eu gweithredu'n awtomataidd yng Nghymru. Byddai'n galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymateb i faterion sy'n codi o'i adolygiad arfaethedig o safonau proffesiynol, rheoleiddio a datblygiad proffesiynol ar draws sectorau.

12.4 Adroddodd y Prif Weithredwr fod Jane Hutt wedi nodi, yn y cyfarfod blynyddol gyda'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 22ain Medi 2009, nad oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n bwriadu bwrw ymlaen â 'thrwydded i ymarfer'.

Categorïau cofrestru:

12.5 Gwahoddwyd yr aelodau i ddechrau datblygu safbwynt y Cyngor ynghylch categorïau cofrestru. Hysbyswyd yr aelodau bod CyngACLl, CyngAC yr Alban a ChyngACC yn rhannu'r un farn y dylid cysylltu cofrestriad llawn â llwyddo yn y safon Sefydlu. Byddai angen ystyried yr egwyddor o gofrestru'n amodol y bobl a fyddai'n gallu gwneud gwaith penodedig athro/athrawes, er enghraifft, hyfforddwyr ac athrawon sydd wedi'u hyfforddi dramor. Yn ogystal, byddai angen trafod yr egwyddor o reoleiddio'r rheiny sy'n cefnogi gwaith athrawon, er enghraifft, CALU, Cynorthwywyr Addysgu a Goruchwylwyr.

12.6 Cynigiodd Alan Meyrick*, Dirprwy Brif Weithredwr a Chofrestrydd Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr* wybodaeth atodol. Awgrymodd y gallai'r Mesur gadw cofrestriad llawn pan ddyfernir SAC, yn hytrach na dyfarnu cofrestriad llawn ar ôl Sefydlu. Dywedodd y Prif Weithredwr fod hyn yn amlygu problemau ac effaith deddfwriaeth sylfaenol a gaiff ei chyflwyno heb ymgynghori'n llawn â Chymru. Yn ddiweddarach yn y drafodaeth, ychwanegodd Mr Meyrick ei farn y byddai hyfforddwyr ac athrawon sydd wedi'u hyfforddi dramor yn dal i gael eu cofrestru'n amodol yn Lloegr.

12.7 Cafwyd trafodaeth gyffredinol, lle mynegwyd ystod o safbwyntiau. Tra bod un aelod yn pryderu na ddylai'r Cyngor gael ei weld yn awgrymu bod gan CALU'r un statws ag athrawon drwy eu cofrestru, ac felly'n datbrisio'r proffesiwn o bosibl, mynegodd aelod arall ei farn bod angen i'r gweithlu ehangach gael ei gynrychioli. Cynigiwyd barn hefyd y dylai'r holl reiny sydd wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor gael yr un lefel o gymorth DPP.

12.8 Ar yr adeg hon, nododd Hayden Llewellyn y gallai hyn fod yn gyfle i ddatrys y mater o sut y gellid rheoleiddio'r grŵp o bobl sy'n gallu gwneud gwaith penodedig athrawon, er enghraifft, hyfforddwyr ac athrawon sydd wedi'u hyfforddi dramor. Roedd tua 100 o unigolion o'r fath yn gweithio yng Nghymru. Eglurodd yr angen i gael cysondeb drwy ddisgrifio anghysondeb sy'n bodoli, gan gymharu canlyniadau diswyddo

athro/athrawes gofrestredig â chanlyniadau diswyddo hyfforddwr neu athro/athrawes sydd wedi'u hyfforddi dramor sydd heb eu cofrestru ac sy'n gwneud yr un gwaith. Cytunodd aelodau y dylai'r Cyngor gofrestru'r grŵp hwn o unigolion ac felly eu rheoleiddio.

12.9 Yna, aeth yr aelodau ymlaen i drafod yr egwyddor o gofrestru'r rheiny sy'n cefnogi gwaith athrawon sy'n cynnwys, er enghraifft, CALU, Cynorthwywyr Addysgu a Goruchwylwyr. Mynegwyd ystod o safbwyntiau, yr oedd y prif bwyntiau'n cynnwys y canlynol: y dylid rhoi ystyriaeth i sefydlu categori cofrestru cysylltiedig, er mwyn creu ffin rhwng statws cofrestru athrawon a statws staff cymorth, tra'n galluogi'r proffesiwn addysgu i gael ei gofrestru yn ei gyfanrwydd; y gallai fod yn fanteisiol i'r grŵp hwn o unigolion gael ei reoleiddio gan y Cyngor, a oedd bellach yn meddu ar 9 mlynedd o brofiad mewn materion o'r fath, yn hytrach na chorff rheoleiddio newydd; a bod angen mawr i reoleiddio CALU a Chynorthwywyr Addysgu. Dywedodd Hayden Llewellyn nad oedd y grŵp hwn o unigolion yn cael eu rheoleiddio bellach, ers cyflwyno'r Awdurdod Diogelu Annibynnol (ADA). Gwnaed y gwaith gan APYTh yn flaenorol, ond ni chymerodd yr ADA gyfrifoldeb am hyn yn rhan o'r trefniadau newydd.

12.10 Nododd yr aelodau hefyd fod aelodaeth gyswllt yn gyffredin mewn proffesiynau eraill ac y byddai'n fwy economaidd hyfyw i GyngACC gymryd cyfrifoldeb dros reoleiddio'r grŵp hwn yn hytrach na mynd i gostau'r gwaith o sefydlu corff ar wahân. Rhoddodd un aelod ei barn y dylai'r Cyngor gymryd cyfrifoldeb dros CALU, Cynorthwywyr Addysgu a Goruchwylwyr, mewn egwyddor. Nid oedd un aelod yn cytuno â hyn a rhoddodd ei farn mai 'Cyngor addysgu' oedd CyngACC. Mewn ymateb, cynigiwyd safbwynt arall, sef nad Cyngor i athrawon yn unig oedd CyngACC a gellid cynnwys y gweithlu ehangach.

12.11 Dywedodd y Cadeirydd y dylid cynnal ymchwil i edrych ar y trefniadau sydd yn eu lle gan gyrff rheoleiddio eraill ar gyfer eu gweithlu ehangach. Awgrymwyd hefyd y dylai'r Cyngor ymgynghori ynghylch unrhyw gynigion o'r fath, gan efallai y byddai'r grŵp hwn o staff cymorth addysgu'n dyheu am reoleiddio eu hunain a bod pob polisi hyd yn hyn wedi'i ddatblygu gan ystyried anghenion athrawon yn unig. Byddai angen gwaith sylweddol pe bai angen i bolisïau'r Cyngor gynnwys y gweithlu ehangach, hefyd. Nododd un aelod y byddai angen i gategorïau eraill gael eu cynrychioli ar y Cyngor pe bai'r Cyngor yn cymryd y cyfrifoldeb ychwanegol hwn. Dywedodd y Dirprwy Gadeirydd ei bod o blaid cymryd cyfrifoldeb am gofrestru a rheoleiddio CALU, Cynorthwywyr Addysgu a Goruchwylwyr a'i bod yn gwneud synnwyr i brofiad y Cyngor gael ei ddefnyddio yn y ffordd hon.

12.12 I grynhoi, dywedodd y Prif Weithredwr yr ymddangosai fod cefnogaeth helaeth i reoleiddio'r gweithlu ehangach ond yr oedd barn amrywiol ynghylch ai'r Cyngor yw'r corff a ddylai wneud y gwaith hwnnw. Cadarnhaodd y byddai angen ymgynghori pellach a byddai angen gwaith sylweddol. Dirprwywyd trafodaeth bellach i'r Pwyllgor Cofrestru.

<u>Trwydded i ymarfer:</u>

12.13 Yna, trafododd yr aelodau gofrestriad gweithredol, a fu'n cynnwys y posibilrwydd y gellid gofyn i athrawon gael 'trwydded i ymarfer' bob pum mlynedd yn y dyfodol. Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at anerchiad a roddwyd gan Keith Bartley i gynadleddwyr yng Nghynhadledd Ryngwladol y Cynghorau Addysgu ym mis Mehefin, a amlinellodd ystod o gymhellion posibl dros gyflwyno cofrestru gweithredol. Hysbyswyd yr aelodau bod y mater hwn wedi'i drafod gan y Pwyllgorau Polisi a Chofrestru yn eu cyfarfodydd ym mis Medi 2009 ac roedd y rhan fwyaf o'r aelodau yn arddel y farn nad oeddent yn cefnogi'r egwyddor o gael trwydded i addysgu, a nodwyd y gwaith sylweddol y byddai ei angen i ddatblygu model a fyddai'n dderbyniol i athrawon.

12.14 Mynegodd y Cadeirydd ei farn ei bod yn bwysig i athrawon gadw eu sgiliau a'u hymarfer yn gyfoes a'i bod hefyd yn bwysig ystyried safbwynt y rheiny y tu allan i'r

proffesiwn addysgu. Ychwanegodd ei farn y dylai hawl i gael DPP parhaus fod yn rhan o drwydded i addysgu.

12.15 Cafwyd trafodaeth ynghylch y materion hyn, pan roddwyd nifer o safbwyntiau. Mynegwyd un aelod ei bryder a dywedodd mai'r proffesiwn addysgu yw'r proffesiwn sy'n denu'r sylw mwyaf; ychwanegodd fod y cynigion yn gyfystyr ag ymateb sydyn, yn ôl pob golwg, pan nad oedd unrhyw broblem, mewn gwirionedd. Codwyd pwyntiau eraill, sef: bod cefnogaeth eang yn bodoli ar gyfer hawl i gael DPP, ond nid iddo gael ei gysylltu o anghenraid â thrwydded i addysgu; bod nifer o ddulliau archwilio'n bodoli, megis rheoli perfformiad, gweithdrefnau disgyblu ac arolygiadau a'i bod yn anodd gweld yr hyn a ellid ei gyflawni ar gyfer y proffesiwn addysgu ei hun; y gellid ymddangos y disgwylid i athrawon oresgyn nifer cynyddol o rwystrau gyda chefnogaeth ostyngol, yn enwedig o ystyried y ffaith bod cyllid ar gyfer DPP â ffocws unigol wedi'i dynnu'n ei ôl; mewn perthynas â'r pwynt terfynol, ychwanegodd yr aelodau nad oes unrhyw gyllid DPP yn bodoli bellach ar gyfer athrawon cyflenwi, a bod angen i unigolion mewn rhai proffesiynau dalu am eu costau DPP eu hunain.

12.16 Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y tebygolrwydd y byddai'r Mesur yn cael ei gymhwyso i Gymru pe câi ei basio'n ddeddfwriaeth yn Lloegr. Dywedodd y Prif Weithredwr na fyddai'n gwneud hynny. Adroddodd fod trafodaeth helaeth wedi'i chynnal rhwng APYTh a Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â'r trefniadau deddfwriaethol y byddai eu hangen o ganlyniad y Mesur.

12.17 Ni chodwyd unrhyw bwyntiau eraill. Dirprwywyd trafodaeth bellach i'r Pwyllgor Cofrestru.

13. Addasrwydd i Gofrestru (CYNGACC 41/09)

13.1 Cyflwynodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) y papur hwn, a roddodd gyfle i'r aelodau drafod meini prawf addasrwydd a threfniadau presennol y Cyngor ar gyfer pennu addasrwydd lle nodir troseddau neu faterion eraill ar ddatgeliad.

13.2 Yn unol â *Deddf Addysg 2002* a *Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2004,* mae'n rhaid i bob athro/athrawes gymwys sy'n gwneud 'gwaith penodedig' athro/athrawes yng Nghymru fod wedi'i gofrestru/ei chofrestru gyda ChyngACC. Nid yw athro/athrawes yn gymwys i gofrestru gyda'r Cyngor oni bai ei fod yn fodlon ei fod/ei bod yn addas i fod yn athro/athrawes gofrestredig. Gan fod y meini prawf a'r trefniadau addasrwydd sydd eisoes yn bodoli wedi'u cyflwyno yn 2006, roedd hi'n bryd bellach cynnal adolygiad.

13.3 Nododd Hayden Llewellyn y gofynnid o bryd i'w gilydd i Bwyllgorau Addasrwydd ystyried materion eraill a allai godi amheuaeth ynghylch addasrwydd ymgeisydd o ganlyniad i bryderon eraill sy'n dod i'r amlwg wrth ystyried adroddiadau datgelu. Ymddangosai y byddai'n fuddiol i'r Cyngor fod mewn sefyllfa i ystyried materion ehangach fel erlyniad sydd yn yr arfaeth neu drosedd a gyflawnwyd yn flaenorol gan yr ymgeisydd tra'n cael ei gyflogi/ei gyflogi fel athro/athrawes, ond nas cyfeiriwyd at GyngACC gan yr heddlu neu APYTh, lle tybiwyd y gallent fod yn berthnasol i addasrwydd yr ymgeisydd. Gofynnwyd am gyngor cyfreithiol, a theimlwyd y gellid cryfhau sefyllfa'r Cyngor mewn dwy ffordd: yn gyntaf, y gellid gwneud mân ddiwygiadau i'r *Rheolau a Gweithdrefnau Addasrwydd* a thrwy hynny, y byddai'n glir y gallai'r Cyngor gynnwys gwybodaeth yn ei asesiad o addasrwydd nad yw'n ymwneud ag addasrwydd a allai ddod i'w sylw; yn ail, y gellid atgyfnerthu ffurflen gais i gofrestru'r Cyngor. Hysbyswyd aelodau na fyddai rhaid newid y Rheoliadau. Cytunodd yr aelodau y dylid ehangu meini prawf addasrwydd presennol y Cyngor er mwyn cryfhau ei sefyllfa.

13.4 Yn 2006, roedd y Cyngor wedi penderfynu cyflwyno proses addasrwydd ac iddi ddau gam a fu'n efelychu'n fras yr hyn a ddefnyddiwyd ar gyfer athrawon cofrestredig mewn perthynas ag achosion o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol neu lle cafodd athro/athrawes ei euogfarnu/ei heuogfarnu o drosedd berthnasol. Hysbyswyd aelodau bod y broses bresennol yn un hir a chostus. Gwahoddwyd aelodau i drafod y broses sy'n bodoli eisoes ac ystyried dirprwyo'r mater i'r Pwyllgor Cofrestru i drafod trefniadau at y dyfodol ymhellach. Byddai dal angen i'r rhain gyflawni'r cydbwysedd gofynnol rhwng tegwch, effeithlondeb, cost, tryloywder a grymuster y broses a budd y cyhoedd.

13.5 Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ar nifer o bwyntiau. Holodd un aelod am y broses o ran yr hawl i apelio pe câi proses un cam ei mabwysiadu. Dywedodd Hayden Llewellyn y byddai hyn yn aros gyda'r Uchel Lys yn y pen draw, ond gellid rhoi ystyriaeth i broses lle gallai'r prif gais fod ar ffurf bapur a lle gwneid apêl i Bwyllgor Addasrwydd CyngACC. Gofynnwyd am wybodaeth ynghylch costau posibl adnoddau ychwanegol y gallai fod eu hangen i ymdopi â llwyth gwaith ychwanegol y swyddogion o ganlyniad i newidiadau yn y gweithdrefnau. Dywedodd swyddogion y câi'r wybodaeth hon ei darparu ar ôl iddi gael ei chyfrifo.

13.6 Ni chodwyd unrhyw faterion pellach mewn perthynas ag ystyried newid y broses addasrwydd, a chafod y gwaith hwn hefyd ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Cofrestru.

14. Rhaglen Gyllido Datblygiad Proffesiynol (CyngACC 42/09)

14.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn, a wahoddodd yr aelodau i drafod penderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gau'r Rhaglen Gyllido Datblygiad Proffesiynol o ddiwedd y flwyddyn ariannol 2009-10.

14.2 Roedd y Cyngor wedi gweinyddu'r rhaglen gyllido DPP â ffocws unigol ar ran y Cynulliad er 2001. Rhwng 2001 a 2004, rhedwyd y rhaglen ar sail cynllun peilot. Cafodd y rhaglen ei phrif ffrydio gan y Cynulliad yn 2004. Er 2001, cyllidwyd tua 35,000 o gyfleoedd datblygu athrawon ac mae'r Cynulliad wedi buddsoddi £24 miliwn yn y rhaglen. Roedd Estyn wedi cyhoeddi adroddiad cadarnhaol ar y rhaglen yn 2006.

14.3 Tynnwyd sylw aelodau at nifer o faterion i'w trafod, sef: unrhyw ymgyrch i ddylanwadu ar benderfyniad y Gweinidog; sut y gellid diogelu anghenion athrawon mewn unrhyw drefniadau newydd; materion staffio; trefniadau ar gyfer dileu'r rhaglen yn raddol; goblygiadau ehangach i'r Cyngor o ran ail-greu ymgysylltiad cadarnhaol ag athrawon; a goblygiadau ariannol ar gyfer incwm ffioedd cofrestru.

14.4 Mynegodd un aelod ei farn, sef bod y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau eisoes wedi gwneud ei phenderfyniad, ac na allai'r Cyngor gael dylanwad ar newid. Teimlai ei bod yn bwysig i'r Cyngor ysgrifennu at y Gweinidog i nodi ei fod yn anghytuno, ac egluro wrth athrawon nad ar y Cyngor yr oedd y bai am y broblem. Cefnogwyd hyn gan aelod arall a fynegodd ei barn y dylai'r Gweinidog fod yn glir y byddai'r penderfyniad yn amharu ar gyflwr y proffesiwn addysgu yng Nghymru.

14.5 Cytunodd yr aelodau y dylai'r Cyngor ymgyrchu ar ran athrawon yng Nghymru i gael cronfa ar gyfer DPP athrawon. Dywedodd un aelod y dylai fod yn glir nad oedd y Cyngor yn ceisio diogelu ei sefyllfa wrth gyflwyno ei ddadl dros gronfa DPP. Cytunodd yr aelodau y cafwyd elfennau negyddol wrth weinyddu'r rhaglen ar ran y Cynulliad, yn enwedig pan ddyrannwyd y cyllid yn llawn, a phan nad oedd rhagor o arian ar gael, caewyd y rhaglen yng nghanol y flwyddyn. Mewn amgylchiadau o'r fath, anelwyd sylwadau negyddol yn y wasg at y Cyngor. Yna, amlygodd aelod arall y camsyniad parhaol yn y proffesiwn bod y ffi gofrestru wedi'i chysylltu â maint y cyllid a oedd ar gael ar gyfer datblygiad proffesiynol. Ychwanegodd y Dirprwy Gadeirydd y dylid meddwl yn ofalus am unrhyw bosibilrwydd o weinyddu rhaglenni ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y dyfodol, a llunio strategaeth ymadael glir. Ychwanegodd fod

annibyniaeth y Cyngor yn bwysig a bod hyn yn ei alluogi i ymgyrchu'n ddyfal ar ran y proffesiwn addysgu.

14.6 Amlygodd y Cadeirydd y gwelliannau sydd eu hangen ar Strategaeth Gyfathrebu'r Cyngor er mwyn ennyn diddordeb athrawon yng Nghymru yn CyngACC. Nododd y Prif Weithredwr y gwaith sylweddol y byddai ei angen ar y Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol yng ngoleuni'r effaith ar ymgysylltiad llai'r Cyngor. Ar yr adeg hon, llongyfarchodd un aelod y swyddogion am gyfathrebu'r newyddion am ddiwedd y rhaglen i athrawon ac ysgolion yn gyflym.

14.7 Mewn perthynas â'r ffi gofrestru, hysbyswyd yr aelodau bod trefniadau i wrthbwyso costau'r swyddfa yn erbyn adnoddau ar gyfer gwaith i Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi galluogi CyngACC i gadw'r ffi yn is nag y byddai fel arall.

14.8 Yn olaf, cynigiodd yr aelodau awgrymiadau ar gyfer cyfathrebu â'r proffesiwn a'r cyhoedd mewn perthynas â chau'r rhaglen. Awgrymodd un aelod y dylai'r cyfathrebu ganolbwyntio ar y trefniadau roedd y Cyngor wedi penderfynu arnynt ar gyfer y Rhaglen Gyllido Datblygiad Proffesiynol o 2010 ymlaen, yn enwedig symud oddi wrth gefnogi cyrsiau untro i ganolbwyntio ar fentora a rhwydweithiau. Awgrymodd aelod arall y dylid defnyddio astudiaethau achos cadarnhaol i ategu unrhyw gyfathrebiadau a gyhoeddir gan y Cyngor.

14.9 Ni chodwyd unrhyw faterion pellach.

15. Unrhyw fater arall

15.1 Nid oedd unrhyw fater arall yn y Sesiwn Gyhoeddus.

15.2 Aeth y Cyngor i sesiwn breifat wedi hyn.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 4ydd Chwefror 2010
yn
ESIS, Trefforest, ger Caerdydd